**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)**

**Nod polisi YGG Grŵp Cynefin yw:**
"…galluogi tenantiaid a'r rhai sy'n byw gerllaw ein tenantiaid i fyd yn heddychlon a diogel yn eu cartrefi eu hunain.".

**Datganiad**

- tenantiaid sy'n gyfreithiol gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain ac am weithredoedd eu hymwelwyr ac unrhyw un sydd ar yr aelwyd
- ni fydd y Gymdeithas yn goddef gweithredoedd o niwsans, ymddygiad gwrthgymdeithasol, aflonyddu hiliol, trosedd casineb neu drais a cham-drin yn y cartref
- bydd y Gymdeithas yn defnyddio ei hadnoddau i ymateb i gwynion am YGG a'i datrys
- byddwn yn gweithredu ar ran tenantiaid a staff sy'n dioddef niwsans neu YGG, ac fe wnawn weithredu yn erbyn tramgwyddwyr, boed yn denantiaid i ni neu beidio
- yr ydym wedi ymrwymo i weithio gyda dioddefwyr i helpu i gael ymateb ar y cyd i drin digwyddiadau o YGG a sicrhau y cefnogir dioddefwyr yn llawn yn y broses
- byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill e.e. Yr Heddlu
- byddwn yn cynnig cefnogaeth i'r dioddefwyr a thystion, ac yn yr un modd, cynnig cyfeirio'r dioddefwyr am gefnogaeth, lle'r ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny

Yn dilyn adrodd achos YGG, bydd yr achwynydd yn derbyn llythyr cydnabod yn cynnwys: rhif yr achos a manylion y swyddog sy'n gyfrifol am yr achos, gwybodaeth am y broses/amser ddylai'r achos gymryd i'w ymchwilio a dyddiadur digwyddiad (os oes angen).

**Categori 1**

Ymddygiad sy'n arwain at drais neu ddigwyddiadau gwirioneddol neu fygythiad ohonynt sydd yn debyg o achosi anaf difrifol.
e.e. ymosodiad, ymddygiad bygythiol/difenwol

| **Gweithred** | **Targed (o'r dyddiad adrodd am yr achos)** |
|---|---|
| Cydnabod y gŵyn | O fewn 1 diwrnod gwaith |
| Ymweld â'r achwynydd/tyst | |
| Ymweld â'r troseddwr | O fewn 3 diwrnod gwaith |
| Ymchwilio a gwneud asesiad ar y cyd (os oes angen) | O fewn 5 diwrnod gwaith |

| | |
|---|---|
| Hysbysu o'r canlyniad | O fewn 10 diwrnod gwaith |

**Categori 2**
**(cydnabod y gwyn o fewn: 2 diwrnod gwaith)**
Ymddygiad sy'n fwriadol, wedi ei dargedu ac efallai yn barhaus gyda'r bwriad o godi ofn, dychryn, neu niweidio unigolyn neu achosi difrod i'w eiddo.
e.e. aflonyddu (difenwi geiriol, meddwdod, galwadau teliffon/llythyrau difenwol), digwyddiadau yn y cartref.

| **Gweithred** | **Targed (o'r dyddiad adrodd am yr achos)** |
|---|---|
| Cydnabod y gŵyn | O fewn 2 diwrnod gwaith |
| Ymweld â'r achwynydd / troseddwr honedig | O fewn 5 diwrnod gwaith |
| Ymchwilio a hysbysu o'r canlyniad | O fewn 15 diwrnod gwaith |

**Categori 3**
**(cydnabod y gwyn o fewn: 3 diwrnod gwaith)**
Ymddygiad neu weithredoedd a ystyrir yn dor-cytundeb tenantiaeth, er nad ydynt yn bwriadu achosi niwsans neu annifyrrwch.
e.e. niwsans sŵn/cerbydau/anifeiliaid/cyffredinol, gerddi blêr, difrod anfwriadol i eiddo, sbwriel/thipio anghyfreithlon

| **Gweithred** | **Targed (o'r dyddiad adrodd am yr achos)** |
|---|---|
| Cydnabod y gŵyn | O fewn 2 diwrnod gwaith |
| Ymweld â'r achwynydd / troseddwr honedig | O fewn 10 diwrnod gwaith |
| Ymchwilio a hysbysu o'r canlyniad | O fewn 20 diwrnod gwaith |

Os nad yw'r Gymdeithas yn medru delio â'r achos yna caiff ei gyfeirio at asiantaeth perthnasol. Mae ystadegau YGG yn cael eu monitor yn fisol gan y Tîm Tai ac yn cael eu rhannu â'r Tîm Arweinyddiaeth, Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau a'r Bwrdd Rheoli pob chwarter/6 mis/blwyddyn.